# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Prif ddarpariaethau*

## 9 Canllawiau ar ymgyrchu etholiadol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i bersonau sy'n ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu etholiadol at ddiben etholiad a bennir yn is-adran (2) ynghylch sut y cânt ymgymryd â'r gweithgareddau hynny yn unol â deddfiadau sy'n gosod cyfyngiadau sy'n ymwneud â rheoli'r coronafeirws.

(2) Yr etholiadau yw—

(a) etholiad 2021;

(b) etholiad sydd i'w gynnal cyn 6 Tachwedd 2021 o dan adran 10 o Ddeddf 2006 i lenwi sedd wag aelod etholaethol;

(c) etholiad sydd i'w gynnal cyn 6 Tachwedd 2021 i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.

(3) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys ond os yw cyfyngiadau a osodir gan ddeddfiad yn effeithio ar weithgareddau ymgyrchu etholiadol at ddiben etholiad a bennir yn is-adran (2) ac ond i'r graddau y mae'r cyfyngiadau hynny yn effeithio ar y gweithgareddau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 mewn grym ar 17.3.2021, gweler **a. 18**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021, Adran 9.